# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Ebrill 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 203(v4)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ganlyniad terfynol adolygiad y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys i ddarparu gwasanaethau ambiwlans awyr yng Nghymru yn y dyfodol?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil i wella diogeledd bwyd

(30 munud)

**NDM8504** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n gwneud darpariaethau ar gyfer targedau i atgyfnerthu diogeledd bwyd yng Nghymru.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai creu dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i bennu targedau i wella diogeledd bwyd yng Nghymru.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru

(30 munud)

**NDM8544** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 'Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru', a osodwyd ar 8 Chwefror 2024.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ebrill 2024. Ymatebodd Ofwat (Saesneg yn unig) a Cyfoeth Naturiol Cymru ar 20 Mawrth 2024 ac ymatebodd Dŵr Cymru Welsh Water ar 28 Mawrth 2024.

## Cwestiwn Brys

**I ofyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Llywodraeth ddatgan pa wybodaeth y gall ei rhannu parthed y digwyddiad difrifol yn Ysgol Dyffryn Aman heddiw?

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Addysg

(60 munud)

**NDM8545** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r adroddiad Major Challenges for Education in Wales a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a amlygodd:

a) bod sgoriau PISA wedi gostwng mwy yng Nghymru nag yn y mwyafrif o wledydd eraill yn 2022;

b) mai deilliannau addysgol ôl-16 yng Nghymru yw'r gwaethaf yn y DU;

c) bod disgyblion yng Nghymru dim ond yn perfformio cystal â phlant difreintiedig yn Lloegr;

d) bod yr esboniad am berfformiad addysgol is yng Nghymru yn debygol o adlewyrchu polisi a dull gweithredu Llywodraeth Cymru; ac

e) bod y cwricwlwm newydd i Gymru a diwygiadau Llywodraeth Cymru yn peri risg o ehangu anghydraddoldebau, cynyddu llwyth gwaith athrawon, a chyfyngu ar gyfleoedd addysg yn y dyfodol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) comisiynu adolygiad annibynnol i'r diwygiadau addysg presennol sy'n cael eu cyflwyno;

b) blaenoriaethu addysg plant drwy gael 5,000 yn fwy o athrawon yn ôl i ystafelloedd dosbarth;

c) sicrhau bod y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth cywir yn gynt; a

d) cyflwyno academïau ac ysgolion rhydd.

Adroddiad Major Challenges for Education in Wales a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu ymrwymiad y Prif Weinidog i welliant parhaus mewn cyrhaeddiad addysgol fel prif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

2. Yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru i gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru a gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru).

3. Yn mynegi diolch i'r gweithlu addysg am eu gwaith caled parhaus drwy gydol y flwyddyn.

4. Yn nodi, er gwaethaf camreolaeth Llywodraeth y DU o'n cyllid cyhoeddus, bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu’r cyllid sydd ar gael i ysgolion trwy'r setliad llywodraeth leol a chyllid grant.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu is-bwynt 2(d)

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8540** Peter Fox (Mynwy)

Gofal sylfaenol a'r agenda ataliol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2024